# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr


Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes


Medi'r 3ydd, 2018

## Croeso nôl i 2018-19!

Annwyl Riant / Warcheidwad,
Ysgrifennaf atoch ar gychwyn blwyddyn academaidd newydd gan obeithio fod pawb wedi cael gwyliau da ac yn barod am flwyddyn ysgol brysur a chyffrous pan fyddwn yn dathlu penblwydd yr Ysgol yn 20 oed! Croeso arbennig i'r 180 o ddisgyblion a rhieni Blwyddyn 7, a chroeso nôl i ddisgyblion Blwyddyn 12 ar gyfer eu hastudiaethau yn y Chweched Dosbarth.

Rwy'n falch i adrodd bod canlyniadau arholiadau allanol yr haf wedi bod yn wych eleni a gyda'r gorau yn hanes yr ysgol. Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr Safon Uwch wedi eu derbyn i'r Brifysgol o'u dewis, a'r mwyafrif o rheiny yn Brifysgolion Grwp Russell. Dymunwn yn dda iddynt ar gychwyn pennod newydd yn eu bywydau. Llongyfarchiadau mawr hefyd i ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi perfformio'n rhagorol yn eu harholiadau TGAU. Mae perfformiad TGAU yr ysgol yn gosod yr ysgol yn 5ed o gymharu â holl ysgolion Dinas Caerdydd. Llongyfarchiadau mawr i'r holl fyfyrwyr am eu hymroddiad a'u gwaith diwyd dros ddwy flynedd a fu'n sylfaen i'r llwyddiant hyn. Mae adroddiad llawn am y canlyniadau arholiadau ar gael ar wefan yr Ysgol.

Hoffwn eich atgoffa o bwysigrwydd app 'Edulink1' fel ffordd o rannu gwybodaeth am addysg a chynnydd ein disgyblion. Mae 'Edulink1' yn galluogi staff, disgyblion a rhieni gael mynediad i wybodaeth am yr ysgol gan gynnwys manylion am gynnydd disgyblion ac adroddiadau drwy'r we, drwy ddefnyddio dyfais ddiwifr. Os nad ydych wedi derbyn cyfrinair neu wedi anghofio'r cyfrinair, neu os am dderbyn mwy o wybodaeth am sut i gael mynediad i'r safle yna cofiwch gysylltu â'r ysgol.

Mae cefnogaeth ein rhieni i bob agwedd o fywyd yr ysgol yn agwedd yr wyf yn falch ohono a chyfranna'r berthynas hon at greu ysgol lwyddiannus lle mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'u rhieni yn un gadarnhaol ac yn un iach. Rwy'n awyddus fod y berthynas agored hon yn parhau a bod cefnogaeth ymarferol rhieni yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol. Credaf fod ysgol lwyddiannus wedi seilio ar berthynas driphlyg agos rhwng staff ysgol, disgyblion a rhieni. Buaswn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth wrth i ni sefydlu ar gychwyn blwyddyn newydd ein disgwyliadau uchel o ran defnydd o'r Gymraeg, ymddygiad, defnydd o ffonau symudol, gwisg, colur a gemwaith. Fe welir ganllaw am ein Polisi Parch ar wefan yr Ysgol a buaswn yn gwerthfawrogi pe fyddech yn atgyfnerthu'r rheolau hyn gyda'ch plentyn.

Rydym wedi trefnu noson rieni ychwanegol eleni er mwyn i rieni disgyblion Bl 7 – 11 gael cyfle i drafod cynnydd cyffredinol eu plant a'r ffordd y maent wedi setlo mewn i'r flwyddyn academaidd newydd gyda Tiwtor Personol y plentyn. Fe fydd y noson rieni yma yn wahanol i'r un draddodiadol gan mae dim ond ymweld â'r Tiwtor Personol fydd yn digwydd ar y noson. Fe fydd amser penodol yn cael ei gytuno gyda'r Tiwtor Personol fydd yn golygu mae ymweliad byr fydd y noson rieni yma. Caiff rieni gyfle i drafod gyda'r Tiwtor Personol unrhyw agwedd o fywyd yr Ysgol a materion sydd yn codi sydd yn bersonol i'r plentyn. Dyddiad y noson rieni ychwanegol yma yw, nos Iau, Hydref 25ain.
Os ydych yn awyddus i gefnogi'r Ysgol mewn modd ymarferol yna fe welwch isod meysydd lle y byddai eich cefnogaeth yn werthfawr tu hwnt. Os oes diddordeb gennych gynorthwyo yna cysylltwch â'r Ysgol drwy'r brif swyddfa.

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

**Cynllun darllen**
Mae nifer fawr o'n disgyblion Blynyddoedd 7 i 9 angen cymorth gyda'i darllen er mwyn iddynt fedru cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan. Cynllun hynod lwyddiannus yw'r cynllun darllen boreol lle daw oedolion i'r ysgol am gyfnod byr yn wythnosol i wrando ar ddisgyblion yn darllen. Mae ein profiad dros blynyddoedd lawer yn profi bod hyn yn ddull lwyddiannus o gynyddu oed darllen disgyblion ac mae'r oedolion hefyd yn cael budd mawr o gefnogi'r disgyblion. Os oes diddordeb gennych gynorthwyo ein disgyblion yna chysylltwch â Mrs Ruth Davies (CAAA) (RD@ysgolplasmawr.cymru).

**Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Staff Plasmawr (CRASP)**
Mae CRASP yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol. Mae carfannau ymroddedig o rieni wedi gweithio'n ddyfal dros y blynyddoedd i godi ymhell dros £175,000 at adnoddau dysgu ein disgyblion. Mae angen mwy o rieni arnom i weithredu fel gwirfoddolwyr i drefnu a chynnal nosweithiau adloniant fydd yn codi arian at wella adnoddau dysgu ein disgyblion. Cysylltwch â Ms Sian-Elin Griffith (SEG@ysgolplasmawr.cymru)

**Nosweithiau gwybodaeth i rieni:**
Os ydych am wybod fwy am gwricwlwm eich plentyn, dulliau addysgu a dysgu'r ysgol ac am flwyddyn waith eich plentyn yn gyffredinol yna chofiwch ddod i neuadd yr Ysgol ar y dyddiad perthnasol isod i glywed cyfres o siaradwyr yn sôn am wahanol agweddau o fywyd yr Ysgol fydd yn effeithio ar eich plentyn eleni.
Blwyddyn 10: Medi'r 20fed am 1800.
Blwyddyn 12: Medi'r 13eg am 1730. Fe fydd Tiwtoriaid Personol eich plentyn ar gael i gael sgwrs.
Blwyddyn 13: Medi'r 13eg am 1830 (UCAS). Fe fydd Tiwtoriaid Personol ar gael i gael sgwrs.

**Parcio ar y safle:**
Gofynnaf yn garedig i rieni sydd yn ymweld â'r ysgol yn ystod y dydd i barcio yn y maes parcio ymwelwyr ac i gofrestru yn y brif swyddfa. Os ydych yn rhoi lifft yn y car i'ch plentyn i'r ysgol neu yn casglu eich plentyn ar ddiwedd y dydd yna trefnwch ollwng a chasglu eich plentyn i ffwrdd o safle'r ysgol rhwng 1520 a 1540. **Nid oes lle ar safle'r ysgol i geir ar adeg prysura'r dydd.**

Os yw eich plentyn yn seiclo i'r ysgol, a allwch sicrhau ei fod ef/hi yn gwisgo helmed ddiogelwch ac yn dod a chlo i'r beic ar gyfer y sied feiciau? Byddwn yn cynnal project yn ystod y tymor i hyrwyddo pwysigrwydd gwisgo helmed wrth seiclo.

Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

J. D. Hayes (Pennaeth)

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr


Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes


September 3rd, 2018

## Welcome back to 2018-19!

Dear Parent / Guardian,

I hope that you had a restful summer holiday and are now ready for another busy and exciting academic year during which we will be celebrating our 20th birthday! A warm welcome to the 180 Year 7 pupils and their families who are now part of the Plasmawr community and welcome back to our of Year 12 students who have chosen to pursue their post 16 education at Plasmawr.

It is a pleasure to report to you that the school's summer exam results at both A Level and GCSE were excellent and amongst the best in the school's history and a reflection of the huge effort and commitment shown by the pupils over the past few years ably supported by both staff and parents. The majority of our A Level students have been accepted to the Universities of their choice, the majority of which are Russell Group Universities. I wish them well as they embark on a new and exciting chapter in their lives. Congratulations to our Year 11 pupils who have attained an outstanding set of GCSE results. The school's performance ranks the school 5th in Cardiff. A full report on our external exam performance is available on the school website.

I would like to remind you of the importance of the 'Edulink1' app as a means of accessing important information about your child's education and progress. It allows staff, pupils and parents greater access to information about pupil progress through the use of the internet and wireless devices. If you are having difficulties in accessing the site, please contact the school for support. I would also kindly ask you to monitor your child's handbook and to sign it on a weekly basis.

I would also like to inform you of a few initiatives which involve parental participation. One of the key features of the school is the huge amount of support we receive from parents in a myriad of different ways which assist us in our work. The unique support we experience from parents assist us in creating a community focussed school which is firmly built on a positive parent – school relationship. I am eager for this relationship to continue and am looking for a new wave of parental volunteers. I am firmly of the opinion that a successful school is built on an open and healthy relationship between staff, pupils and parents, and I'd be delighted if we could count on your support. I trust that I will have your support as we establish our high pupil expectations at the beginning of a new academic year in relation to speaking Welsh, good behaviour, the use of mobile phones, uniform, make-up and jewellery. A brief guidance to our Respect Policy can be found on the school website. I would appreciate it if you could discuss the school rules with your child.

We have organized an additional parents evening this year to highlight the important role of the Personal Tutor in monitoring the wellbeing of your child in school. Based on an appointment sytem you will be offered a 5 – 10 minute time slot to speak to your child's Personal Tutor about any school related matter or concern. This additional parents evening for Years 7 – 11 has been arranged for Thursday, October 25th.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen
Y Tyllgoed
Caerdydd
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes


These are the areas where we could benefit from continued parental involvement, if you'd like to become involved in any one of the areas below, please contact the school office with your details and areas of interest?

**Adult supported reading scheme.**
We have a successful reading scheme for pupils from year 7 to 9, which assists scores of children with improving their reading skills. The reading scheme depends on a group of adult volunteers who come to school for one or two short sessions per week to listen to pupils read. The success of the scheme is incredible and the adults also benefit from working closely with the pupils. If you, or anyone you know, are interested in assisting us, please could you contact Mrs Ruth Davies (SENCO) (RD@ysgolplasmawr.cymru) for more information?

**CRASP.**
We are delighted with the continued success of our Parent Teacher Association (Cymdeithas Rieni, Athrawon a Staff Plasmawr – CRASP). CRASP activities have contributed over £175,000 to the school over the past 20 years and we are keen to develop our activities further. We are looking to recruit new volunteers to assist our officers. If you would like to offer your support, please contact Ms Sian Elin Griffith (Assistant Head), (SEG@ysgolplasmawr.cymru).

**An introduction to your child's curriculum and academic year.**
If you would like further information about the forthcoming academic year, our teaching and learning strategies and general information about school life then you are welcome to attend a brief evening session to listen to a few short presentations by members of the Progress and Welfare team.
Year 10: September 20th at 1800.
Year 12: September 13th at 1730. Personal Tutors will be available during the evening.
Year 13: September 13th at 1830 (UCAS). Personal Tutors will be available during the evening.

**Parking issues.**
I would kindly ask parents who are visiting the school to park in the visitor's car park and to register at the office near the school's main entrance. If you are offering your child a lift to school by car or collecting at the end of the school day, please could you make arrangements for drop-offs and pick-ups to occur off-site? The school site is at its busiest at the end of the school day and **I would ask parents not to park on the school site between 1520 and 1540.**

If your child cycles to school, could you ensure that they wear a suitable safety helmet and that they have a lock for their bike in order to safely store the bike in the bike shed? We will be raising the awareness amongst our pupils this term of the importance of wearing a cycle helmet when cycling.
Yours sincerely

J.D. Hayes
Headteacher